



Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant 'Gweithio gyda Throseddwy'r' a CCB

Noddir gan Bethan Jenkins AC a Mark Isherwood AC
20 Medi 2017, 12.00 – 13.30
Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn bresennol:

Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd)
Bethan Jenkins AC (Cyd-gadeirydd)
Sara Kirkpatrick - Respect (siaradwr)
Sophie - SEEdS, Cymorth i Fenywod Cymru (siaradwr)
Hilary Watson - Cymorth i Fenywod Cymru (cofnodion)
Gwendolyn Sterk - Cymorth i Fenywod Cymru (ysgrifenyddiaeth)
Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Lee Waters AC
Joyce Watson AC
Russell George AC
Catherine Fookes - WEN Cymru
Ceri Wood - tîm VAWDASV Gwent
Kate Jones - PTAWA
Gwilym Roberts - Relate
Nicola Jones - Cyngor Caerdydd
Julie Richards - Annibynnol
Bethan Lindsey-Gaylard - Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr
Vivienne Laing NSPCC

Cerys Miles - Llywodraeth Cymru (tîm VAWDASV)
Y Cyng Erika Kirchner - Cyngor Abertawe
Y Cyngorydd Yvonne Jardine - Cyngor Abertawe
DI Dan Michel - Heddlu'r De
DS James - Heddlu'r De
Tony Mulcahy - Estyn
Bernie Bowen-Thomson – Cymru
Ddiogelach
Karen Maxwell - Cymru Ddiogelach
Rachael Williams - Llysgennad, Cymorth i Fenywod Cymru
Cary - SEEdS, Cymorth i Fenywod Cymru

Ymddiheuriadau:

Simon Thomas AC
Huw Irranca-Davies AC
Llyr Gruffydd AC
Jane Ruthe - RASA Cymru
Jackie Stamp New Pathways.
Jackie Jones - UWE
Lynne Sanders - Cymorth i Fenywod Abertawe

Cofnodion

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf:

Gwnaeth Gwendolyn Sterk (ysgrifenyddiaeth) gyflwyniad ar y llythyr yn deillio o'r cyfarfod diwethaf i ofyn i Lywodraeth Cymru ail-ddeddfu Adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010. Cytunodd y grŵp y dylid anfon y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant Carl Sargeant AC ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Mark Drakeford AC. Cytunodd Gwendolyn i fwrw ymlaen â hyn.

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol:

Ail-etholwyd Mark Isherwood AC a Bethan Jenkins AC fel Cyd-gadeiryddion. Ail-etholwyd





Live Fear Free Helpline Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru

0808 80 10 800




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Gwendolyn Sterk (Cymorth i Fenywod Cymru) fel Ysgrifennydd y Grŵp. Y gyllideb flynyddol oedd £0. Adroddiad blynyddol i'w gyflwyno.

Siaradwr Sara Kirkpatrick, Rheolwr Datblygu Gwasanaethau, Respect:

“Respect Accreditation Standards: Safe and effective practice while working with perpetrators”

Trosolwg eang o dri maes gwaith Respect: gweithio gyda throseddwr cam-drin yn y cartref, gweithio gyda goroeswyr gwrywaidd a phlant a phobl ifanc sy'n oroeswyr, ac amlinelliad o'r safonau sydd i ddod, a fydd yn cael eu lansio ar 8 Tachwedd. Yr hyn sy'n newydd: wedi'i gysylltu'n agos â safonau eraill (megis NQSS Cymorth i Fenywod Cymru); ymyriadau ehangach (sicrhau bod ymyriadau wedi'u dylunio o ran arfer gorau yn hytrach na'u dylunio ar sail cost yn unig); fframwaith canlyniadau diweddar; gwybodaeth rhanddeiliaid hygyrch syml sy'n llawer cliriach, ac yn fwy cryno er mwyn ei deall; fframwaith arloesi. Yr un fath â safonau blaenorol: dioddefwyr wrth wraidd pob dim; dealltwriaeth yn ôl rhyw o drais yn erbyn menywod a merched; dealltwriaeth o anghydraddoldeb rhyw mewn cymdeithas; wedi'i ymgorffori'n llawn â sector arbenigol VAWDASV.

Siaradwr Sophie, Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr, Cymorth i Fenywod Cymru:

“The Impact of Perpetrator Work on Survivors”

Rhoddodd Sophie ei hanes personol o sut, fel goroeswr, y cafodd ei heffeithio'n andwyol oherwydd na chafodd ei chynbartner ymyriadau troseddwr priodol. Roedd yr ymyriadau a ddarparwyd i'w chynbartner yn rhaglenni troseddwr heb eu hachredu, yn canolbwyntio ar leihau'r cam-drin corfforol yn unig ac nid oeddent yn darparu digon o gefnogaeth i oroeswyr. Amlinellodd hefyd ei phrofiad o driniaeth amhriodol iawn mewn cwnsela grŵp gyda'i chamdriniwr. Croesawodd Sophie y ddeddfwriaeth Ymddygiad Gorfodi a Rheoli¹, yr oedd hi'n teimlo y byddai wedi gwneud gwahaniaeth petai wedi bod yn ei lle ar y pryd a dywedodd y byddai wedi gwneud gwahaniaeth petai wedi cael cymorth a gynigiwyd gan raglenni troseddwr achrededig, megis rhaglenni Respect a achredwyd gan Relate yng Nghymru, gan y byddai wedi gwneud gwahaniaeth i'w phrofiad gan y byddai wedi cael yr offer i nodi ymddygiad negyddol ei chamdriniwr, rhaglen ôl-droseddwr.

Trafodaeth:

1. Cyhoeddodd Joyce Watson AC y digwyddiad Rhuban Gwyn ar 22 Tachwedd yn ystod amser cinio a 6pm a gofynnodd am i'r neges gael ei lledaenu. Mae Joyce Watson AC wedi bod yn gweithio gydag ysgolion ar faterion sy'n ymwneud â pharch ac mae'n hapus i gylchredeg y pecyn y mae'n ei anfon i ysgolion.
2. Dywedodd Mark Isherwood AC ei fod wedi ymgyrchu dros gynnwys rhaglenni troseddwr yn Neddf VAWDASV (Cymru) 2015.
3. Dywedodd Mark Isherwood AC ei fod wedi cyfarfod yn ddiweddar â Llysgennad Gwlad Pwyl, cynrychiolwyr o Gymuned Pwylaidd Wrecsam, Cyngor Wrecsam ac asiantaethau gan gynnwys Bawso a Chymorth i Fenywod Cymru Wrecsam. Roedd cymunedau

¹ Adran 76 o'r Ddeddf Troseddau Difrifol 2015.



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yng Nghymru

0808 80 10 800




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Pwylaidd a Phortiwgalaidd mawr yn Wrecsam, ac efallai y bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn dymuno ymgysylltu â'r rhain yn y dyfodol gyda'r materion diwylliannol ac ieithyddol sy'n berthnasol i gam-drin yn y cartref a thrais mewn poblogaethau mudol yng Nghymru.

4. Gofynnodd Gwilym Roberts o Relate sy'n darparu Choose 2 Change (yr unig ddarparwr achrededig cyfredol o ran Respect yng Nghymru) pam y byddai Cymru'n defnyddio safonau achredu newydd yn hytrach na mabwysiadu safonau Respect addas. Roedd yn cydnabod cost gychwynnol Respect, a oedd yn ddrud i ddarparwyr bach, ond amlygodd y 'gost' o beidio â'u defnyddio. Dywedodd hefyd fod rhai rhaglenni yn cael eu hystyried yn anghywir fel rhaglenni troseddwr, a oedd yn beryglus. Er enghraifft, mae 'Caring Dads' weithiau'n cael ei chamddeall yn y modd hwn.
5. Ategodd Sara Kirkpatrick fod tystiolaeth gadarn ac astudiaeth hydredol o waith troseddwr (gan gynnwys yng Ngogledd Cymru) sy'n cefnogi'r gwaith a wneir gan raglenni achrededig, a oedd yn dangos y gallant arwain at ostyngiad mewn cam-drin corfforol a seicolegol a galluogi i oroeswyr deimlo'n fwy diogel.
6. Awgrymodd Vivienne Laing o'r NSPCC fod y grŵp yn argymhell bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai dim ond rhaglenni troseddwr achrededig y dylid eu comisiynu.
7. Gofynnwyd y cwestiwn a fyddai ymddygiad troseddol gyda'r camdriniwr am oes. Dywedodd Sara fod hyn yn wahanol i gaethiwed, gan yr oedd defnyddio cam-drin yn y cartref yn ymddygiad sy'n seiliedig ar ddewis. Y ddau ffactor sef 'ymddygiad' a 'newid agwedd' oedd y rheswm yr oedd y rhaglenni troseddwr llawn mor hir - er mwyn galluogi newid mewn agwedd. Y person gorau i farnu a yw'r newid hwn wedi digwydd yw'r goroeswr. Mae gwasanaethau achrededig Respect yn cynnwys gwasanaeth cefnogi partneriaid sy'n para'n hirach na'r rhaglen troseddwr, gan roi gofod i'r sawl sydd wedi goroesi i gwestiynu'r ymddygiad. Dywedodd Sophie ei bod hi'n credu y byddai wedi elwa'n fawr o'r math hon o gefnogaeth.
8. Nid yw ymgysylltu â goroeswyr yn orfodol i'r goroeswr ond mae'n ofynnol i'r gwasanaeth fod yn rhagweithiol wrth geisio ymgysylltu mewn rhaglenni achrededig Respect. Amlygwyd pwysigrwydd elfennau dan arweiniad goroeswyr ac elfennau cyffwrdd y dull hwn gan aelodau'r grŵp.
9. Nodwyd bod menywod yn cael eu dwyn i gyfrif fel 'dioddefwyr' trwy orfod cwblhau'r Rhaglen Freedom. Mae anghydraddoldeb gan nad yw troseddwr yn cael eu dwyn i gyfrif.
10. Codwyd pryderon ynghylch llysoedd teulu yn atgyfeirio troseddwr i raglenni troseddwr gan nad yw'n ymddangos bod system lle mae'r llysoedd yn gwirio a yw troseddwr wedi cwblhau'r rhaglen ofynnol. Codwyd bod CAF/CASS Cymru yn atgyfeirio at raglenni achrededig Respect yn unig, ond dim ond un sydd ar hyn o bryd yng Nghymru felly roedd pryderon ynghylch hygyrchedd. Mae'r grŵp am gysylltu â CAF/CASS Cymru ar hyn i sicrhau bod atgyfeiriadau i'r rhaglen troseddwr yn cael eu gorfodi.
11. Trafododd y grŵp bod ymgysylltu'n weithredol yn y rhaglen yn bwysig a bod rhai atgyfeiriadau'n amhriodol - ni ddylai pawb gael eu hatgyfeirio ac mae addasrwydd yn bwysig iawn.



Live Fear Free Helpline **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru

0808 80 10 800



**MAE PLANT
YN BWYSIG
CHILDREN
MATTER**



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

12. Gofynnodd y grŵp pam nad oedd mwy o raglenni achrededig Respect eisoes yng Nghymru. Un rheswm oedd y gost ond nodwyd bod rhai gwasanaethau hefyd yn disgwyl i'r safonau newydd gael eu lansio neu eu bod yn y broses o gael eu hachredu.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf 13 Rhagfyr 2017.



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales

Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yng Nghymru

0808 80 10 800




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Camau i'w cymryd:

1. Llythyr i ofyn i Lywodraeth Cymru ail-ddeddfu Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i'w anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant Carl Sargeant AC ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Mark Drakeford AC (Ysgrifenyddiaeth).
2. Adroddiad blynyddol ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol a'r daflen gyllideb i'w hanfon i'r swyddfa gyflwyno (Ysgrifenyddiaeth).
3. Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i argymhell bod y canllawiau comisiynu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol sydd i ddod yn nodi mai dim ond rhaglenni troseddwy'r achrededig y dylid eu comisiynu. (Ysgrifenyddiaeth)
4. Cysylltu â CAFCASS Cymru ynglŷn â chyfeiriadau at raglenni troseddwy'r achrededig nad ydynt yn cael eu monitro a'u mesur i sicrhau bod troseddwy'r yn mynychu a chwblhau'r rhaglen.